



Llên Natur

www.llennatur.com

Gwefan i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru

Ychwanegwch ddeunydd
i
llennatur@yahoo.co.uk

Golygydd: Duncan Brown:
Cysodi: Ifor Williams.



Gyda PHALMWYDD yn cael eu plannu yn y Bermo, ac yn hadu eu hunain yma ar yr afon Ddwyfor mae Cymru yn mynd yn debycach i Gosta Del pob dydd.

* * * *

DRYLLIO'R LLONG y *Rothsay Castle*

Ar yr 18 Awst 1831 digwyddodd y trychineb gwaetha i ddoed i ran bae Conwy erioed, sef dryllio'r llong y *Rothsay Castle* ar y Dutchman's Bank tra ar daith bleser o Lerpwl i Fiwmares. Roedd y llong yn hen ac yn brin o bwer. Cododd storm fawr o'r gogledd orllewin. Ni achubwyd ond 23 o bobl allan o'r 150 a oedd ar fwrdd y llong. Cafwyd cyrff llawer ohonynt yn Aber a Llanfairfechan. Difrodwyd tai yn ninas Lerpwl gan y storm hefyd. [adroddiad llawn yn *Ivor Wynne Jones Shipwrecks of North Wales*]

* * * *

BARCUTIAID a 'ballu

Soniodd Harri Thomas yn Rhifyn 6 am farcutiaid yn mynd yn ôl i hen drefn o fyw. Clywais oddi wrth Alison Stanford (gynt o'r Waunfawr) am farcutiaid yn nhref Hemel Hempstead yn ne ddwyrain Lloegr sydd yn ymweld yn rheolaidd â chanol y dref. Barcutiaid sydd wedi eu cyflwyno o'r Almaen yw'r rhain (barcutiaid Cymru ddim digon da?). Barcutiaid oedd gwylannod a brain y Canol Oesoedd, yn carthu strydoedd y dinasoedd budron. Nid 'mod i'n dweud bod strydoedd Hemel Hempstead yn fudur....!



Trwy gyd-ddigwyddiad, yn yr un ardal, daeth gwalch glas i lawnt gartref Alison i wledda. Llwyddodd Tony, ei gŵr, i gael y llun uchod.

RHOSCOLYN ddoe a heddiw

Beth mae'r ddau lun isod yn ei ddweud am ein cefn gwlad?



"Y tir gorau yn cael ei reoli yn ddwysach heddiw" (sylwch ar y caeau silwair braf yr ochr draw i'r dyffryn heddiw)

"Y tir salaf yn y pant yn cael ei anwybyddu yn amaethyddol heddiw" (drain duon yn ymledu o'r cloddiau)

"Tynnwyd y llun diweddaraf o ardd ty haf, datblygiad y degawdau diwethaf."



Bwrlwm GOLEUDY ENLLI

Yn 1966 cofnododd George Evans, warden Gwylfa Adar Ynys Enlli ar y pryd, 45 math o wyfyn o gwmpas y goleudy, wedi eu denu gan y golau. O'u plith roedd 19 na chafodd eu gweld fel arfer yn unman arall ar yr ynys. Roedd amryw ohonynt yn gyffredin, ond ar dri dyddiad, 12fed Mehefin, 12fed Awst a'r 19eg Medi tynnwyd ei sylw gan un math yn arbennig, sef y "cannoedd, efallai miloedd" o ffyrch arian.



Gwyfyn y fforch arian

Fel y dywedodd Peter Hope Jones yn ei lyfr *The Natural History of Bardsey (1988) Their* [y ffyrch arian] *daytime presence on the island immediately after those dates invokes the intriguing possibility that some species may be attracted not just to the light from a short distance away, but perhaps even to the island from considerably further.*

Roedd tywydd o gwmpas y 21 Awst (o leiaf) yn ffafril iawn i fewnfudwyr o wyfynod. Dyma'r negeseuon ar ddau gerdyn post o'r cyfnod:

21 Awst 1966 *We have had a week of beautiful weather.....spending this afternoon at Black Rock sands*

26 Awst 1966 *Weather is still perfect and we are having a good time* Ysgrifennwyd ar gopa'r Wyddfa a phostiwyd ym Mhwlheli

Roedd llif awyr poeth yn dod o dde'r lwerydd ar y pryd. Gol.

* * * *

HAF 1976 - rhag mynd yn angof...

Llofruddiaeth JFK, hunllef Chernobyl, a 9/11....felly hefyd haf crasboeth 1976 - mae pawb yn cofio lle'r oeddynt ar y pryd. Mae rhagor na 30 mlynedd wedi mynd heibio ers y flwyddyn gofiadwy honno..

Adnabyddir tri math o syched - syched amaethyddol, syched hydrolegol, a syched meteorolegol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyflenwad annigonol o'r glaw haf sydd i fod i ddigolledu cnydau o'r dŵr maent yn ei ddefnyddio wrth dyfu. Mae'r ail yn ymwneud â phrinder glaw'r gaeaf, sydd i fod i ail-gyflenwi'r cronfeydd dŵr ar gyfer defnydd diwydiannol a domestig. Ac mae'r trydydd yn cymharu'r glawiad gyda rhyw gyfartaledd penodedig. Roedd 1976 yn syched ar bob un cownt - ac er gwaethaf cynhesu'r hinsawdd, ni chafwyd cyfnod tebyg iddo wedyn.

Roedd hi - a'r flwyddyn ganlynol - yn flwyddyn soffieir. Petrisen fach heb fod llawer mwy nag aderyn y to yw hwn, sydd yn ffynnu yng ngwledydd y de ac yn cyrraedd y parthau hyn yn achlysurol. Mi glywais alwad ddigamsyniol y ceiliog "sut-mae-siw, sut-mae-siw" mewn cae yd ger Llyn Ystumllin ar y cyntaf o Awst.

Yr hyn a nodweddodd haf '76 yn arbennig oedd effaith y gwres tanbaid di - dor ar y coed. Manteisiodd chwilen clwyf y llwyfen ar wendid y coed llwyf. Prin oedd yr haint wedi gafael arnynt yng Nghymru cyn hynny, ac aeth y difrod rhagddo fel tân gwyllt. Crinodd ddail y coed bedw a'r derw (er i lawer ail gadeirio rhywfaint pan ddaeth glawogydd yr hydref o'r diwedd) .

Roedd hi'n flwyddyn o bryfed diddorol - mewnfudwyr fel ieir bach melyn, ac ieir bach tramor. Mae'r rhain yn fwy

cyfarwydd i ni heddiw ar ôl yr amryw gyfnodau hirfelyn tesog yr hafau diweddarach. Gwelais loynnod byw megis brithribinau porffor (*purple hairstreaks*) yn mentro o'u coedwigoedd derw arferol i anialdiroedd agored y



Gwackchwyfyn penglog, Nadolig 1975

Rhinogydd i chwilio am leithder. A dim ond ar ôl i'r holl sioe ddod i ben y cefais wybod am un dieithryn nodedig, sef yr arswydus gwalchwyfyn y benglog (*Death's Head Hawkmoth*). Daeth dau ohonynt i'r fei fel chwilerod o dan wlydd tatws garddwr syfrdan o Ddyffryn Ardudwy.

Ond y rhyfeddod mwyaf oedd Dennis Howells AS. Cafodd ei apwyntio gan lywodraeth Llundain i'r swydd aruchel o Weinidog

y Syched. Dyma weinidog llywodraeth mwyaf llwyddiannus erioed. Fe'i hapwyntiwyd i'r barchus swydd ddiwedd mis Awst, ac ymhen pythefnos daeth glawogydd mwyaf Medi ers blynnyddoedd. Cyffyrddiad rhwng dyfroedd cynnes ac awyr llaith Bae Biscay, ac awyr oerach yr hydref yn uwch-haenau'r atmosffer oedd yr achos, meddai'r gwyddonwyr. Ond roedd Llywodraeth ei Mawrhydi, a Dennis y Dilyw, yn gwybod yn well!

Addasiad o erthygl yn Y Cymro

* * * *


PIGION diweddar o ddyddiadur ar-lein Don Perkins

www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diaryl原因.html

25 Mai 2008 *The NOAA satellite image today shows an area of ice north of Greenland. According to the BBC website further evidence of the break-up of Arctic ice was revealed by a recent Canadian expedition that found major new cracks north of Canada. Last year was a record for melting Arctic ice*

25 Mai 2008 *The first data from NASA's Phoenix Mars Lander at 68 degrees north, 234 degrees east, has arrived on Earth today. One of the first images shows the development of stone polygons, thought to be the result of the action of freezing and thawing. You don't have to go too far to see similar weather induced patterns, stone stripe effects can be seen on the top of the Carneddau Mountains.*

The month [Mai 2008] ended with a record mean temperature of 13.6C (+1.7) and [+2.1] of average putting 1990, that had 13.4C, into second place. It was a dry month with 33.4 mm (48%) and [58%] of average, driest since 1998 ranking 6th since 1928. It was sunniest since 2000 with a sunshine duration of 232 h at RAF Valley, the 6th sunniest May in Anglesey since before 1930.



TRAFFERTH Y TYWYDD yn Awst 1450

Cafodd byddin Lloegr drafferth yn Awst 1450 pan gofnododd y croniclydd John Harding yn y 15fed Ganrif fel hyn:

*the Kyng Henry thryce to Wales went, in the haye time
and harvest dyvers yere, in every time were mystes and
tempestes sent, of wethers foule that he had never
power Glendouer to noye, but ever his caryage clere
Owen had at certain straites and passage and to our
host did full great damage* Annales Henrici Quarti

(Aeth y Brenin Harri IV deirgwaith i Gymru yn nhymor y gwair a'r cynhaeaf, ond pob tro daeth niwl a thymhestloedd a phob math o dywydd blin i'w ran. Ni allai flino Glyndŵr, gan nad oedd y tywydd yn drafferth iddo, ac achosodd Owain niwed mawr i'r brenin a'i fyddin).

* * * *

BARRUG ym mis Awst

11 Awst 1695 *The weather now so cold that greater frosts
were not always seene in the midst of winter; this
succeeded much wet, and set harvest extremely back*
John Evelyn

* * * *

Llythyr gan Lari Parc am llwch y Sahara a'r AURORA BOREALIS

Diolch am y cylchgrawn Llên Natur: do mi welais i'r llwch oren ar ddŵr yr adar y gaeaf hwn: gwn oedd o'n hynod o fain gan yr oedd yn cymryd tuag wythnos i suddo i waelod y pwcedi dŵr (dwi'n casglu dŵr glaw er mwyn arbed arian). Pan es i ati i llau'r llestri roedd y llwch wedi ffurfio haen galed iawn i symud.

Ond: mi welais i'r *Aurora borealis* ar ôl i mi gyrraedd Y Fron, tua gaeaf 2000 neu 2001. Rhaid wrth feddwl, i'r peth ddigwydd rhwng tua 7 a 9 y nos. Yr oeddwn yn mynd am dro gyda'r nos yn y gaeaf o gwmpas y Fron, a dyma fi'n gweld rhywbeth oren yn yr awyr ac ar y gorwel gogledd dwyreiniol. Yr oeddwn yn meddwl i gychwyn bod Llandudno ar dân, ac oeddwn yn gweld dim ond y golau a gai ei adlewyrchu dros y mynyddoedd. Es i i le heb oleuadau stryd i gael gwell golwg, a dyma'r golau'n dechrau symud mewn tonau dros yr awyr: yr oedd yn ffurfio siapiau fel deunydd, neu lenni yn symud yn araf deg yn y gwynt. Yr oedd y ffurfiau'n mynd yn hynod o uchel i'r awyr. Yr oeddwn i'n edrych arnynt am tua awr, cyn i mi geisio darbwyllo pobl oeddwn yn eu nabod i gael cip ond nid oeddent yn fy nghredu i gychwyn, ac efo plant ifanc, dwi'n siwr bod hi'n annodd dilyn ffansi dyn sengl! Ond yn y diwedd dyma nhw'n dod allan i edrych. Yn anffodus, chawson nhw ddim eu taro gan hudoedd y ffenomenon.

Dwi'n deall mai eithaf anghyffredin ydy gweld yr *aurora borealis* o Gymru, ond wrth lwc, mi ydwyf wedi, a hyd yn oed pe bai neb yn fy nghredu, bydd y cof o'r peth gennyf nes i'r cof mynd yn wan.


* * * *

LLINELLAU SYTH ymhob cyfeiriad -



ffermwyr ynteu robotiaid sydd yn tyfu cnydau erbyn hyn?

NODIADAU TYWYDD HUW HOLLAND JONES, gyda chyfraniadau gan Twm Elias



Ffrynt oer yn clirio, 1 Gorffennaf 2008

Welsoch chi'r machlud bendigedig hwn noson gyntaf Gorffennaf eleni. Mae yna ddigon o lôn tywydd sy'n proffwydo diwrnod braf ar ôl machlud o'r fath: **awyr goch y pnawn, tegwch a gawn, red sky at night, shepherd's delight**. Ond nid arwydd o dywydd teg yw'r machlud yn y llun hwn. **Coch hyll – glaw** yw'r dywediad ym Mhenllŷn sy'n darogan tywydd ansefydlog pan fydd y cochni yn gryf ac yn ymestyn yn bell dros y wybren. Lliw coch-oren nad yw'n ymestyn dros yr holl awyr sydd yn addo i ni dywydd teg drannoeth.

* * * *

Union Ganrif yn ôl - yn ôl cardiau post y cyfnod

01/08/1908 *on Thursday I went to Holyhead by boat....it was fearfully windy but not sufficient to raise a sea...it [harbwr Caergybi] looked just like home [h.y. Portsmouth] with the battleship in the harbour docks wharves* (marc post Bangor)

15/08/1908 *Having lovely weather so far* (marc post Bangor)

19/08/1908 *Weather cold and dull. Went on this coach*



journey this afternoon.[llun isod] Splendid

24/08/1908 *...up in the mountains in the pouring rain. Oh yes, I am cheerful...staying in Barmouth tonight*

Yn ôl y cardiau cafwyd tywydd cymysg yn Awst 1908

L l ê n y r H i n

Pa werth BANHADLEN?



Rhostir o fanadl yn ne Ffrainc.
Ychydig o eithin sydd yno.

Mae'n debyg bod y celliau gwreiddiol, fel rhai heddiw, yn cynnwys pob math o blanhigion, gan gynnwys y banadl. Mae briar a *bramble* yn dod o'r un gwraidd. Gyda threigl amser, dyma *brom* yn troi yn *broom* sef planhigyn y banadl yn unig. Hwn oedd y llwyn i wneud ysgubau i godi llwch cyn oes yr iwbanc a'r hwfyr.

Ydi teclyn codi llwch yn ddigon i esbonio pwysigrwydd y banadl felly i bobl Cymru a thu hwnt? Fe'i cofiwn fel blodyn hardd: "ac yna y cymerasant flodau y deri a blodau y banadl a blodau yr erwain, ac o'r rhai hynny rhiithio y forwyn decaf a harddaf a welsai dyn erioed ... a'i galw hi Blodeuwedd". Yn Lloegr arferid mynd â bwndel o fanadl gwyrdd i briodasau gwledig.

Genêt yw banadl yn y Ffrangeg, ac fe fabwysiadodd Geoffrey d'Anjou, tad Harri II, y planhigyn i'w arfbais dan yr enw *Plantagenet*, "planhigyn y banadl". Mae Anjou, yn ardal y Maine-et-Loire fodern, yn brolio ei lwyni banadl o hyd. Ym mhen arall yr ysgol gymdeithasol, cyfeiriodd un awdur o Ffrancwr at Lydawes dlawd fel *la pauvre au genêts* ("y gardoten â banadl") fel petai dlodion y fan honno yn arfer gwerthu banadl fel y mae sipsiwn yn gwerthu grug. Cymerodd Harri'r VII y banadl yn foddion at ei gamdreuliad.

Mae'r banadl yn tyfu o hyd, yma a thraw yn ein cloddiau fel y gwnaeth ers o leiaf y 13eg ganrif: *arhit iclaud dirpant inihit iniaun diguelli banadil* ("ar hyd clawdd tir y pant, un hyd union [ohono] y gweli [di sydd] o fanadl"). Gwnaed tanwydd ohonno i wresogi, a soniwyd amdano yn y 13eg Ganrif fel deunydd i wneud to. Cawn gofnod yn 1695 o'i ddefnydd i wneud ysgubau: megis brig ysgub o fanadl neu fedw, a nifer o gofnodion o Lydaw i'r un perwyl. Fe'i defnyddiwyd yn Llydaw yn ôl un ffynhonnell i doi pydewau ac yn ôl y son byddai'n rhaid ei adnewyddu'n aml. I'r Cymry bu'n dda hefyd at roi lliw mwsogl gwyrdd ar wlan.

Yn ôl casgliad Enwau Lleoedd Melville Richards mae yna 304 o safleoedd yng Nghymru sydd â'r elfen banadl (neu ffurf debyg) yn eu henw. Mae yna Erw'r Banadl yn Llanfair Caereinion, Allt y Banal yn Llangoedmor, a Ffridd Fanadlog yn Sir Ddinbych, i enwi ond tri. Mae'r enwau fel *Park ar bae'lan* hefyd yn niferus yn Llydaw. Yn ôl casgliad Melville Richards mae'r rhan fwyaf o safleoedd a enwyd ar ôl y banadl yn dyddio o'r 17eg Ganrif a bron i hanner nhw i'w cael yn Sir Ddinbych. O, a gyda llaw, ystyr gwreiddiol ewbank, ymhell cyn i Mr Ewbank gael ei eni, yw Clawdd Ywen, ac mae yna un o'r rheiny yn Sir Forgannwg. Mae'n siwr bod yna stori yn y fan honno hefyd.

Addasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf yn Y Cymro yn 2008

COREDAU Sir Ddinbych

Beth yw cored? Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, dyma yw: 1. argae i ddal pysgod, sef pyst wedi eu gyrru i wely afon neu yn y môr a gwail wedi eu plethu rhyngddynt; 2. argae i Gronni dŵr; 3. cryw; neu 4. cawell pysgod: weir; dam; *fishgarth* yn Saesneg. Yr un yw'r elfen cor - mae'n debyg ag sydd yn corlan.



Beth oedd enw'r gored yn y llun tybed? Dyma'r coredau sydd wedi eu cofnodi yn Sir Ddinbych yn rhestr enwau lleoedd Melville Richards, a'u henwau pan gawsant eu cofnodi gyntaf. Mae yna bum safle gyda'r elfen gyfystyr cryw hefyd yn y sir.

CORED DDULAS, ABERGELE Kored Ddylas (1599)
COED Y GORED, HIRWYN koed y gored (1573)
DRYLL Y GORED, LLANRWST Dryll y gored (1621)
FFRIDD Y GORED, BODGYNWCH Ffrith Egored yn Swch y Glynn (1751)
FFRIDD Y GORED, LLANFWROG Ffrith y gored (1718)
PONT RHYD Y GORED, LLANYNYS Pont rhyd y Gorync (1700)
YSTUM Y GORED, SUTTON Ystem y Gored (1620)
CORED PWYLL Y GWYDDAR, EGLWYS-BACH Cored Pull y Gewdder (1545)

Diolch i Brifysgol Bangor:

www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx

* * * *

GWEFANAU diddorol

Tywydd

<http://theweatheroutlook.com/twodata/dathistcharts.aspx>

www.wetterzentrale.de/topkarten/tkfaxbraar.htm

www.llansadwrn-wx.co.uk/daily/diary.html

dangos caeau a'u henwau o'r map degwm 1841 yn Arduwgy

www.adnabodardudwy.org.uk

enwau lleoedd rhestr Meville Richards

www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/

Canolfan Kate Roberts

www.caergors.org

Archifau Sir Conwy

www.conwy.gov.uk/archifau

Calendrau hanesyddol

www.homepages.tesco.net/~jk.calisto/calisto/index.htm

Hanesion a dyddiaduron o Ben Lllyn...a mwy

www.rhiw.com/

Sain Ffagan

www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/sainffagan/

Gwefannau cofnodi bywyd gwyllt

www.sewbrec.org.uk/contacts/neighbouring-lr-cs-folder/wwwbic.page

www.cofnod.org.uk/

Holl ysgrifau Darwin

<http://darwin-online.org.uk/manuscripts.html>